# Marchnadoedd Cynnyrch Lleol: Meithrin economi fwyd leol ffyniannus yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae gan farchnadoedd cynnyrch lleol rym i drawsnewid ein dull o dyfu, gwerthu a bwyta bwyd yng Nghymru. Trwy sicrhau cysylltiad uniongyrchol rhwng cynhyrchwyr bach a'u cymunedau, mae'r marchnadoedd hyn yn cynorthwyo busnesau lleol i dyfu ac hefyd yn cyfrannu at system fwyd fwy cynaliadwy a chydnerth.




Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae’r diddordeb mewn cynhyrchu a bwyta bwyd lleol wedi cynyddu ledled Cymru. Mae defnyddwyr yn chwilio fwyfwy am gynnyrch ffres o ansawdd rhagorol sy'n cael ei dyfu'n agos at eu cartref, ac mae ffermwyr sy’n amaethu ar raddfa fechan a chynhyrchwyr artisan yn chwilio am ffyrdd o arallgyfeirio eu ffrydiau incwm a chysylltu wyneb yn wyneb â'u cwsmeriaid.

Mae marchnadoedd cynnyrch lleol yn cynnig ateb i'r ddau beth yma. Trwy gynnig lleoliad rheolaidd a chanolog ble gall cynhyrchwyr werthu eu nwyddau, mae'r marchnadoedd hyn yn sicrhau ei bod hi'n hawdd i ddefnyddwyr allu prynu amrywiaeth eang o gynnyrch wedi'i dyfu a'i greu'n lleol. Ar yr un pryd, maent yn cynnig cyfle gwerthfawr i gynhyrchwyr ar raddfa fechan feithrin perthynas â'u cwsmeriaid, adrodd eu straeon, a chael adborth uniongyrchol am eu cynnyrch.

Y tu hwnt i'w manteision economaidd, mae marchnadoedd cynnyrch lleol hefyd yn ategu polisïau allweddol Llywodraeth Cymru ynghylch cynaliadwyedd, iechyd a lles; er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Trwy fyrhau cadwyni cyflenwi, gall y marchnadoedd hyn helpu i leihau’r defnydd o ddeunyddiau pacio, gwastraff ac allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau dros bellter mawr. Maent hefyd yn annog defnyddwyr i fwyta mwy o fwydydd ffres a chyflawn, yn hytrach na chynnyrch sydd wedi’i brosesu’n helaeth iawn, gan gyfrannu at ganlyniadau gwell o ran iechyd y cyhoedd.

At hynny, mae marchnadoedd cynnyrch lleol yn fannau ymgynnull pwysig ar gyfer cymunedau, ac maent yn meithrin ymdeimlad o gysylltiad a chydlyniant cymdeithasol. Maent yn cynnig lle i gymdogion gyfarfod, sgwrsio, a meithrin perthynas ar sail eu cariad at fwyd da a chynhyrchu lleol, a chaiff hynny ei amlygu gan y ffordd y bydd pobl yn aros i gymdeithasu ymhell ar ôl iddynt orffen siopa.

Lluniwyd y canllaw hwn i helpu tyfwyr llysiau, rhanddeiliaid a chymunedau ledled Cymru i sefydlu a rhedeg marchnadoedd cynnyrch lleol llwyddiannus. Gan fanteisio ar arbenigedd tyfwyr profiadol, yn ogystal ag astudiaeth achos ynghylch Marchnad Cynnyrch Lleol ffyniannus Trefdraeth, mae'n cynnig map ffordd fesul cam ar gyfer sefydlu a rheoli marchnad fywiog a chynaliadwy sy'n cynorthwyo cynhyrchwyr lleol ac yn diwallu anghenion y gymuned.

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

## Pam ddylech chi sefydlu marchnad cynnyrch lleol?

**1. Cynorthwyo busnesau lleol:** Mae marchnadoedd cynnyrch lleol yn cynnig mannau gwerthu uniongyrchol i ffermwyr sy'n cynhyrchu bwyd ar raddfa fechan, cynhyrchwyr bwyd artisan, a chrefftwyr. Trwy werthu yn y farchnad, gall y busnesau hyn ddod yn fwy amlwg, meithrin sylfaen cwsmeriaid ffyddlon, adrodd eu stori a chynhyrchu ffynhonnell incwm ddibynadwy gan fanteisio ar y gyfran uwch o elw a geir yn sgil gwerthu'n uniongyrchol. Er enghraifft, mae Marchnad Cynnyrch Lleol Trefdraeth yn Sir Benfro wedi helpu busnesau bychan eraill yn yr ardal i ffynnu drwy gynnig llwyfan cyson a rheolaidd ble gallant werthu eu nwyddau (er enghraifft, y caffi lleol).

**2. Cryfhau'r economi leol:** Pan fydd defnyddwyr yn prynu gan gynhyrchwyr lleol, bydd mwy o arian yn aros yn y gymuned. Bydd hyn yn creu effaith lluosydd, oherwydd bydd y busnesau hynny a'u gweithwyr yn gwario eu henillion yn lleol, gan gefnogi busnesau a gwasanaethau eraill. Yn y modd hwn, gall marchnadoedd cynnyrch lleol gyfrannu at greu swyddi ac at dwf yr economi. Canfu astudiaeth gan y New Economics Foundation fod pob £1 sy'n cael ei gwario mewn marchnad fwyd leol yn cynhyrchu £3.70 i'r economi leol, o'i gymharu â dim ond £2.50 am bob £1 sy'n cael ei gwario mewn archfarchnad.

**3. Gwella diogelwch a chydnerthedd bwyd:** Mae marchnadoedd cynnyrch lleol yn helpu i greu system fwyd fwy amrywiol a chydnerth. Trwy gefnogi rhwydwaith o gynhyrchwyr sy'n cynhyrchu ar raddfa fechan, maent yn lleihau dibyniaeth ar gadwyni cyflenwi hir a bwydydd wedi'u mewnforio, all fod ar drugaredd digwyddiadau sy'n tarfu arnynt. Yn ystod argyfyngau megis pandemig COVID-19 a'r llifogydd yn Sbaen, gall system fwyd leol gref sicrhau bod bwyd ffres a maethlon ar gael i gymunedau.



**4. Hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd:** Bydd marchnadoedd cynnyrch lleol fel arfer yn cynnig bwydydd sy'n cael eu tyfu neu eu cynhyrchu gerllaw, gan leihau'r pellter y bydd cynnyrch yn ei deithio o'r fferm i'r plât. Gall hyn helpu i leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chludiant, yn ogystal â deunydd pacio a gwastraff. Mae llawer o gynhyrchwyr lleol hefyd yn defnyddio arferion tyfu nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd, er enghraifft, amaethyddiaeth organig, agroecolegol a / neu adfywiol, gan gyfrannu ymhellach at nodau cynaliadwyedd.

**5. Annog addysg am fwyta'n iach a bwyd:** Gall marchnadoedd cynnyrch lleol gynnig amrywiaeth eang o fwydydd ffres a chyflawn, sy'n golygu y bydd hi'n hawdd i ddefnyddwyr gael gafael ar opsiynau maethlon. Maent hefyd yn cynnig cyfle i ddefnyddwyr ddysgu am darddiad eu bwyd, sut mae'n cael ei dyfu, a sut i'w baratoi. Mae llawer o farchnadoedd yn cynnwys gweithgareddau addysgol megis arddangosiadau coginio neu ymweliadau â ffermydd, sy'n helpu i feithrin llythrennedd bwyd ac annog arferion bwyta iach.

**6. Creu ymdeimlad o gymuned a lle:** Mae marchnadoedd cynnyrch lleol yn fannau ymgynnull ble gall pobl gysylltu â'u cymdogion, dysgu am faterion lleol, a dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol gyffredin a'u hiaith. Byddant yn aml yn cynnwys cerddoriaeth fyw, celf a chrefft, neu weithgareddau diwylliannol eraill sy'n cyfrannu at ymdeimlad o fywiogrwydd a lle. Er enghraifft, mae Marchnad Ffermwyr Glan yr Afon yng Nghaerdydd wedi dod yn sefydliad cymunedol annwyl gan bawb, a bydd yn denu miloedd o ymwelwyr bob wythnos ac yn cynnig canolbwynt ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu lleol.

## Sut i sefydlu marchnad cynnyrch leol

**1. Dewiswch ddiwrnod ac amser cyson** (ee, wythnosol) sy'n llwyddo i'r lleoliad ac i'r darpar gwsmeriaid. Ystyriwch ffactorau megis amserlenni gwaith lleol, oriau ysgol, a phatrymau twristiaeth. Er enghraifft, canfu Marchnad Cynnyrch Lleol Trefdraeth fod marchnad wythnosol ar ddiwrnod penodol yn helpu i sefydlu trefn siopa reolaidd i gwsmeriaid. Mae Marchnad Ffermwyr Llanymddyfri yn cael ei chynnal bob mis.

**2. Nodwch pwy yw'r rhanddeiliaid lleol**, megis cynghorau tref, grwpiau gwyrdd, a dinasyddion sydd â diddordeb a all helpu i gefnogi'r farchnad. Ymgysylltwch â hwy yn gynnar i sicrhau sylfaen gadarn o gefnogaeth. Yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, roedd cefnogaeth lawn y cyngor tref yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y farchnad a cheir rheolwr marchnad sy'n cydlynu ac yn hwyluso.



**3. Sicrhewch leoliad gweladwy yn yr awyr agored**, yn ddelfrydol mewn stryd neu sgwâr marchnad. Mae lleoliad awyr agored yn helpu i greu awyrgylch bywiog a deniadol ac yn denu pobl sy'n pasio yno. Mae marchnad Trefdraeth yn elwa o fod wedi'i lleoli mewn man cyhoeddus ble bydd y ffordd ar gau ar ddiwrnod y farchnad, sy'n golygu ei bod yn weladwy iawn ac yn hygyrch. Mae Marchnad Ffermwyr Hwlffordd yn cael ei chynnal yn wythnosol yn sgwâr y dref.

**4. Ymgysylltwch â pherchnogion busnes lleol** i ddatrys unrhyw bryderon a phwysleisiwch fanteision posibl cynyddu nifer y bobl yn y dref. Parchwch eu hanghenion a chydweithiwch i greu trefniant sy'n fuddiol i bawb. Anogwch fusnesau lleol i fynegi eu barn a chefnogi, gan gydnabod bod eu cefnogaeth yn hanfodol o'r dechrau i leddfu ofnau a meithrin perthynas â phobl.

**5. Sicrhewch bod y farchnad yn canolbwyntio ar nwyddau a gynhyrchir yn lleol**, er enghraifft, llysiau, eitemau wedi'u pobi, caws, diodydd, cig, wyau, cynnyrch llaeth, cyffeithiau a chrefftau lleol. Ystyriwch gyfyngu ar nifer y stondinau ar gyfer pob math o gynnyrch unigol er mwyn cynnal cydbwysedd yn yr hyn a gynigir. Gallwch fod yn llwyddiannus trwy sicrhau digon o stondinau i ddarparu hanfodion y neges wythnosol, gyda'r pwyslais ar gynnyrch bwyd a dim ond llond dwrn o stondinau crefft o ansawdd uchel.

6. **Ystyriwch ymgeisio am grantiau neu gymorthdaliadau** gan y cyngor tref i helpu â'r costau sefydlu cychwynnol, er enghraifft, offer stondinau a rheoli'r farchnad. Gall y gefnogaeth hon fod yn allweddol i sefydlu'r farchnad a sicrhau ei dichonoldeb hirdymor. Fe wnaeth marchnad Trefdraeth elwa o barodrwydd y cyngor i fuddsoddi yn y seilwaith a'r rheolaeth angenrheidiol.

**7. Sefydlwch ganllawiau a disgwyliadau eglur ar gyfer stondinwyr**, gan gynnwys gofyn am bresenoldeb cyson ac ymrwymiad i gyfrifoldeb ar y cyd. Bydd hyn yn helpu i greu profiad marchnad dibynadwy o ansawdd rhagorol i gwsmeriaid. Pwysleisiwch bwysigrwydd ymrwymiad, presenoldeb ac ymgysylltu gan y stondinwyr o'r cychwyn cyntaf.

**8. Dylech greu awyrgylch croesawgar a deniadol** sy'n annog cwsmeriaid i aros a chymdeithasu. Ystyriwch gynnwys cerddoriaeth fyw, arddangosiadau coginio, neu elfennau rhyngweithiol eraill. Gellir ystyried diwrnodau marchnad yn ddigwyddiadau, gyda gweithgareddau a phrofiadau i ddenu cwsmeriaid a'u hannog i aros ac archwilio.

**9. Cydweithiwch â'r cyngor lleol** i sicrhau bod trefniadau angenrheidiol megis cau ffyrdd a gosod arwyddion ar waith. Bydd hyn yn helpu i greu amgylchedd diogel a hygyrch i gwsmeriaid a stondinwyr. Yn Nhrefdraeth, mae parodrwydd y cyngor i gau'r ffordd yn allweddol i alluogi'r farchnad i weithredu'n hwylus. Mae Cyngor Sir Benfro yn hyrwyddo Marchnad Ffermwyr Hwlffordd ar eu gwefan.

**10. Gwerthuswch ac addaswch y farchnad yn rheolaidd** ar sail adborth gan gwsmeriaid, stondinwyr, a rhanddeiliaid lleol, ond byddwch yn ymwybodol y gallai gymryd amser i wreiddio'r farchnad yn y gymuned leol. Byddwch yn fodlon ystyried syniadau a dulliau newydd a all helpu'r farchnad i ffynnu yn yr hirdymor. Mae marchnad Trefdraeth wedi parhau i esblygu a gwella dros dreigl amser, diolch i ymgysylltu a chydweithredu rheolaidd rhwng pawb sydd â chysylltiad â'r farchnad.

## Manteision i gynhyrchwyr:




- Man gwerthu amrywiol i werthu cynhyrchion arbenigol na fyddai o reidrwydd yn cael eu cynnwys mewn blychau llysiau, e.e., asbaragws, marchysgall ac ati.
- Cyfle i gyrraedd cwsmeriaid newydd, gan gynnwys twristiaid yn ystod misoedd y gwyliau, gan barhau i gael cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn gan bobl leol
- Cyfle i werthu gormodedd o gynnyrch, cynnyrch "di-siâp" neu gynnyrch dros ben. Hefyd, gall cynnyrch heb ei werthu yn y farchnad gael ei roi i gwsmeriaid eraill e.e. cynllun bocsys (gan greu economi gylchol)
- Mae'n cyfrannu at yr economi leol, gan gadw arian o fewn y gymuned
- Llwybr uniongyrchol i gwsmeriaid terfynol a mwy o amlygrwydd; cyfle i adrodd stori'r busnes a chael adborth
- Gwella elw trwy werthu'n uniongyrchol
- Hyblygrwydd i werthu mwy neu lai; gallu bod yn fwy ystwyth drwy fod yn hyblyg
- Potensial i feithrin sylfaen cwsmeriaid ffyddlon a chynhyrchu incwm dibynadwy
- Llai o angen am ddeunyddiau pacio a chludo dros bellter maith, gan gynorthwyo i gyflawni nodau cynaliadwyedd
- Cyfle i addysgu defnyddwyr am arferion tyfu a chynnyrch
- Potensial i ddenu'r cynhyrchwyr confensiynol presennol sy'n gwerthu popeth i gyfanwerthwyr neu mewn swmp i ddatblygu mentrau cyflenwi lleol hefyd. Mae stondinau llaeth ar ffermydd llaeth yn enghraifft dda o sut mae arbrofi eisoes yn digwydd gyda hyn.

- Gallai dod â chynnyrch fferm i farchnadoedd lleol ddatblygu cyfleoedd i greu incwm ychwanegol i aelodau ychwanegol o'r teulu mewn teuluoedd ffermio presennol. Gallant fanteisio ar fentrau lleol, sy'n gwerthu'n lleol, gan barhau i ganiatáu i'r prif fusnes werthu i brynwyr eraill.

## Ystyriaethau:

Wrth sefydlu marchnad cynnyrch leol, bydd angen ystyried sawl ffactor allweddol er mwyn sicrhau ei llwyddiant a'i hirhoedledd:

**1. Cysondeb:** Fel y dangosir gan Farchnad Cynnyrch Lleol Trefdraeth a Marchnad Ffermwyr Hwlffordd, mae cysondeb yn hanfodol. Mae cynnal y farchnad yn wythnosol yn helpu i'w sefydlu fel cyrchfan siopa reolaidd yn hytrach na digwyddiad untro. Dylai stondinwyr ymrwymo i fynychu'n rheolaidd, oherwydd bydd hynny'n meithrin ymddiriedaeth a ffyddlondeb ymhlith cwsmeriaid.

**2. Ymrwymiad stondinwyr:** Mae llwyddiant marchnad yn dibynnu i raddau helaeth ar ymroddiad ei stondinwyr. Mae angen i stondinwyr ymgysylltu ac ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am weithredu'r farchnad, a bod yn barod i fuddsoddi amser ac ymdrech, yn enwedig ar y dechrau.

**3. Cydbwysedd ac amrywiaeth:** Dylai marchnad ffyniannus gynnig cymysgedd cytbwys o gynhyrchion, gan ganolbwyntio'n bennaf ar fwyd ond hefyd gynnig rhywfaint o grefftau o ansawdd uchel os bydd hynny'n briodol. Cafodd marchnad Trefdraeth lwyddiant trwy sicrhau digon o stondinau i ddarparu'r hanfodion ar gyfer y neges wythnosol a pharhau i gynnig ystod amrywiol o nwyddau gan gynnwys nifer fechan o stondinau crefftau o'r radd flaenaf. Er ei bod yn ddigwyddiad misol, mae Marchnad Ffermwyr Dinbych, yn cynnig un stondin yn unig i bob math o gynnyrch penodol er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu siopa'n dda ond hefyd er mwyn sicrhau y bydd y farchnad yn ddichonol i gynhyrchwyr ei mynychu heb gystadleuaeth.

**4. Lleoliad ac amlygrwydd:** Mae dewis y lleoliad iawn yn allweddol. Gall lleoliad yn awyr agored mewn lle canolog a gweladwy megis sgwâr marchnad neu stryd i gerddwyr yn unig helpu i ddenu cwsmeriaid a chreu awyrgylch prysur. Mae marchnad Trefdraeth yn elwa o'i lleoliad mewn man cyhoeddus gyda'r ffordd ar gau ar ddiwrnod marchnad ac mae Marchnad Ffermwyr Hwlffordd wedi'i lleoli yng nghanol y dref.

**5. Cymorth gan y cyngor a'r gymuned:** Mae cefnogaeth y cyngor lleol a'r gymuned yn hanfodol. Yn Nhrefdraeth, roedd cefnogaeth lawn y cyngor tref, gan gynnwys cynnig seilwaith a chau ffyrdd, yn allweddol i lwyddiant y farchnad. Mae ymgysylltu â busnesau a thrigolion lleol i ddatrys unrhyw bryderon ac ennyn cefnogaeth hefyd yn hanfodol.



## Astudiaeth Achos

### Marchnad Cynnyrch Lleol Trefdraeth, Sir Benfro; Hwb Cymunedol ffyniannus

Mae Marchnad Cynnyrch Lleol Trefdraeth yn Sir Benfro wedi dod yn enghraifft ddisglair o sut y gall marchnad sy'n cael ei rhedeg yn dda drawsnewid cymuned. Â chefnogaeth lawn y cyngor tref, mae'r farchnad wedi ffynnu yn ei lleoliad gweladwy, yn yr awyr agored, gan elwa o gau'r ffordd ar ddiwrnod y farchnad i greu amgylchedd diogel ac addas i gerddwyr.



Mae rheolwr y farchnad a'r stondinwyr wedi ymdrechu'n deg i ymgysylltu â busnesau lleol, gan sicrhau eu cefnogaeth a'u parodrwydd i dderbyn y farchnad o'r cychwyn cyntaf. Mae stondinwyr wedi ymrwymo i fynychu'n rheolaidd, gan greu cynnig cyson o ansawdd rhagorol i gwsmeriaid. Mae'r farchnad yn pwysleisio cynhyrchion bwyd lleol â chydbwysedd o hanfodion ac eitemau arbenigol, yn ogystal â detholiad o grefftau wedi'u dewis yn ofalus.

Caiff diwrnodau marchnad eu hystyried yn ddigwyddiadau yn eu hunain, ac ar brydiau, ceir cerddoriaeth fyw a gweithgareddau rhyngweithiol, ac mae hynny'n creu awyrgylch croesawgar a diddorol sy'n denu trigolion ac ymwelwyr. Y canlyniad yw canolbwynt cymunedol ffyniannus sy'n cefnogi cynhyrchwyr lleol, yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn cyfrannu at wead cymdeithasol y dref.

### Y caffis

Dywedodd Jana, perchennog/rheolwr **Pwnk,** mai diwrnod y farchnad ar ddydd Llun yw eu diwrnod prysuraf trwy gydol flwyddyn, a'i fod brysurach na'r penwythnosau. Oherwydd hynny, mae hi'n cyflogi staff ychwanegol ar ddydd Llun i wasanaethu'r nifer ychwanegol o bobl. Dyma ei diwrnod cryfaf yn yr wythnos o ran incwm a dyna pam y byddant ar agor bob amser ar ddydd Llun, hyd yn oed yn y gaeaf, pan fyddant ar gau ar ddiwrnodau eraill yn ystod yr wythnos.

Dywed Andrew, rheolwr **Blas**, bod angen am staff ychwanegol ar ddydd Llun nawr ac yn ystod y tymor ymwelwyr. Mae cau'r ffordd i gynnal y farchnad rhwng 7am a 2pm yn caniatáu iddynt osod byrddau a chadeiriau y tu allan ar y stryd, gan gynnig seddi ychwanegol ac ychwanegu at lawenydd ac awyrgylch marchnad ffyniannus. Ar ddiwrnodau'r farchnad yn ystod yr haf, dywed y bydd ciw yn aml yn ymgasglu wrth ddrws y caffi oherwydd mae'r farchnad wedi dod yn atyniad i ymwelwyr sy'n dychwelyd i'r ardal sy'n gwybod mai dyma'r lle i brynu cynnyrch lleol o ansawdd uchel. Mae Andrew yn credu mai'r cryfder iddynt hwy yw'r ffaith fod y farchnad yn wythnosol, ac felly, mae'r boblogaeth leol wedi dod i ystyried ei bod yn lleoliad dibynadwy i nôl eu neges. Mae hyn yn cyfrannu ymhellach at waith y caffis, oherwydd hyd yn oed yn y tymor tawel, ar ddydd Llun gwlyb, bydd pobl leol yn dal i ddod i'r dref i siopa, sy'n golygu ei bod hi'n fuddiol iddynt agor y caffis ar y diwrnod hwnnw.

### Y Siopau

Mae Nathan, rheolwr **Spar** yn teimlo bod y farchnad yn llwyddo am ei bod yn ddigwyddiad wythnosol. Maent yn gwybod y bydd hi'n neilltuol o brysur ar ddydd Llun oherwydd bydd pobl yn dod i'r siop i brynu bwydydd ac eitemau eraill pan fyddant wedi gorffen yn y farchnad. Nid ydynt yn credu bod cau'r stryd

yn cael effaith sylweddol ar eu gwerthiant oherwydd mae’r llefydd parcio rheolaidd ar y stryd yn brin beth bynnag ac mae'r farchnad yn denu mwy o bobl i'r dref nag y byddai'r lleoedd parcio a gollir ar y stryd yn ei ddenu. Fe wnaeth Nathan hefyd bwysleisio’r ffaith bod trefnydd/gosodwr y farchnad a'r masnachwyr wedi bod yn dda am sicrhau na chyfyngir ar fynediad i'r busnesau 'brics a morter' ac na chaiff hynny ei rwystro a bod nifer yr ymwelwyr rheolaidd yn llifo fel arfer.

Mae'n bosibl mai Paul, perchennog/rheolwr y **siopau cigydd**, yw'r busnes a allai wynebu’r gystadleuaeth fwyaf gan y farchnad oherwydd ei fod yntau hefyd yn gwerthu llysiau ac mae’r farchnad yn cynnig stondin i gynhyrchwyr cig lleol. Mae Paul yn optimistaidd ynghylch y farchnad a'r dorf y gall y farchnad ei denu ar ddydd Llun. Nid oedd yn ystyried fod gwerthwyr llysiau'r farchnad yn gystadleuaeth enfawr i’w fusnes oherwydd mae ganddynt ystod a chynhyrchion gwahanol gyda masnachwyr y farchnad yn cynnig nwyddau lleol ac organig. Mae ei siop hefyd ar gael chwe diwrnod yr wythnos o gymharu â chyfnod masnachu pum awr y farchnad.

Mae Alison, rheolwr **Coast and Country Holiday Cottages**, yn hynod o gadarnhaol am effaith y farchnad ar eu busnes. Mae hi'n ei hystyried yn atyniad go iawn i'r dref a bod y dref wedi ffynnu mewn sawl ffordd yn ystod blynyddoedd diweddar yn rhannol oherwydd hynny.
Esboniodd Alison y byddant yn ysgrifennu ac yn argraffu am y farchnad yn eu holl brosbectysau fel rhywbeth i ddenu darpar ymwelwyr a byddant hefyd yn sôn am yr amser a'r dyddiad pan fyddant yn croesawu eu holl westeion dros y ffôn.

### Adborth gan gwsmeriaid

"Mae'n ddibynadwy - bydd cwsmeriaid yn prynu eu llysiau wythnosol gennym ni oherwydd byddwn ni yno bob amser.

Mae cwsmeriaid yn mwynhau tarddiad cynnyrch, ffres iawn, lleol iawn, organig, moesegol ac economi gylchol fel geiriau ac ymadroddion cyffredin.

Mae llawer o bobl hefyd wedi cyfeirio at y llawenydd y mae’r dull hwn o siopa yn ei gynnig, oherwydd ei fod mor gymunedol a chaiff pobl ymgynnull a sgwrsio wrth nôl eu neges - rhywbeth sy'n llai a llai cyffredin mewn archfarchnadoedd confensiynol."

## Casgliad: Datgloi potensial marchnadoedd cynnyrch lleol yng Nghymru

Mae'r ddadl dros farchnadoedd cynnyrch lleol yng Nghymru yn un gref. Fel mae'r canllaw hwn wedi ei ddangos, mae'r marchnadoedd hyn yn cynnig ystod eang o fanteision i gynhyrchwyr, defnyddwyr a chymunedau. Trwy gynnig lle gwerthu uniongyrchol i gynhyrchwyr sy'n cynhyrchu ar raddfa fechan, mae marchnadoedd yn helpu i gefnogi busnesau lleol, creu swyddi, a sicrhau bod arian yn cylchredeg yn yr economi leol. Maent hefyd yn cyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol trwy leihau milltiroedd bwyd a gwastraff o ddeunyddiau pacio, gan hyrwyddo bwyta'n iach ac addysg am fwyd.



At hynny, mae marchnadoedd cynnyrch lleol yn ganolfannau cymunedol hanfodol, gan ddod â phobl ynghyd drwy eu cariad cyffredin at fwyd ffres a lleol. Maent yn creu ymdeimlad o le a hunaniaeth, gan ddathlu cynhyrchion a thraddodiadau unigryw ardal benodol. Fel y mae astudiaeth achos Marchnad Cynnyrch Lleol Trefdraeth yn ei brofi, gall marchnad ffyniannus ddod yn destun balchder ac ymgysylltiad y gymuned gyfan.

Fodd bynnag, mae sefydlu marchnad cynnyrch leol lwyddiannus yn gofyn am gynllunio gofalus, cydlynu ac ymrwymiad gan bawb sy'n rhan o'r fenter. Mae llawer o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried, yn cynnwys dewis y lleoliad iawn, sicrhau caniatâd angenrheidiol, recriwtio stondinwyr ymroddgar a meithrin cefnogaeth y gymuned. Drwy ddilyn y canllawiau cam wrth gam a amlinellir yn y ddogfen hon, a dysgu gwersi yn sgil arferion gorau fel y rhai a amlygwyd yn Nhrefdraeth, gall cymunedau ledled Cymru ddatgloi potensial marchnadoedd cynnyrch lleol.

Mae manteision marchnadoedd lleol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r effeithiau economaidd a chymdeithasol uniongyrchol. Trwy gefnogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy ar raddfa fechan, mae'r marchnadoedd hyn yn cyfrannu at system fwyd fwy cydnerth, amrywiol a theg.

Maent yn helpu i ailgysylltu pobl â ffynonellau eu bwyd, gan feithrin mwy o werthfawrogiad o sgiliau a llafur caled cynhyrchwyr lleol. Maent hefyd cynnig dewis deniadol arall yn lle'r system fwyd ddiwydiannol fyd-eang, gan amlygu gwerth cadwyni cyflenwi byr a pherthynas wyneb yn wyneb. Wrth i Gymru edrych ymlaen at y dyfodol, mae gan farchnadoedd cynnyrch lleol rôl hanfodol i'w chyflawni wrth adeiladu economi fwyd fwy cynaliadwy, ffyniannus a chysylltiedig. Trwy rymuso cynhyrchwyr, ymgysylltu â defnyddwyr, a chryfhau cymunedau, gall y marchnadoedd hyn helpu i greu system fwyd sy'n llwyddo i bawb. Mae'r potensial yn enfawr – mae gan bawb ohonom gyfle i fanteisio ar y cyfle a'i wireddu.

Gellir defnyddio'r canllaw hwn fel adnodd i gynghorau tref ac awdurdodau lleol sy'n ceisio cefnogi datblygiad marchnadoedd cynnyrch lleol yn eu hardaloedd.

Dyma sut:

**1. Cydweddu strategol:** Mae'r canllaw yn dwyn sylw at sut mae marchnadoedd cynnyrch lleol yn cyfrannu at amcanion polisi allweddol, er enghraifft, datblygu'r economi, cynaliadwyedd amgylcheddol, iechyd y cyhoedd, a chydlyniant cymunedau. Trwy sicrhau bod datblygiad y farchnad yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol hyn, gall cynghorau ac awdurdodau adeiladu dadl gref dros fuddsoddi a chefnogi.

**2. Canllawiau ymarferol:** Mae'r cyngor cam wrth gam ynghylch sefydlu a rhedeg marchnad lwyddiannus yn cynnig map ffordd eglur i gynghorau ac awdurdodau. Mae'r canllaw yn cynnig gwybodaeth ymarferol a all fod yn sail i benderfyniadau a dyraniad adnoddau, yn cynnwys nodi lleoliadau addas a sicrhau caniatâd angenrheidiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid a hyrwyddo'r farchnad.

**3. Enghreifftiau o arferion gorau:** Mae astudiaeth achos Marchnad Cynnyrch Lleol Trefdraeth yn enghraifft ysbrydoledig o'r hyn y gellir ei gyflawni os ceir y gefnogaeth a'r cydweithredu priodol. Trwy amlygu effeithiau cadarnhaol marchnad ffyniannus, gall y canllaw helpu cynghorau ac awdurdodau i gyfleu'r manteision posibl i'w cymunedau eu hunain.

**4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Mae'r canllaw yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cynhyrchwyr, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, a thrigolion. Trwy ddarparu fframwaith ar gyfer ymgynghori a meithrin partneriaeth, gall y canllaw helpu cynghorau ac awdurdodau i sicrhau cefnogaeth i ddatblygu'r farchnad.

**5. Meithrin gallu:** Trwy amlygu'r rolau a'r cyfrifoldebau amrywiol sy'n gysylltiedig â sefydlu a rhedeg marchnad, gall y canllaw helpu cynghorau ac awdurdodau i nodi a datblygu'r sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol ymhlith aelodau eu timau. Gallai hynny gynnwys hyfforddiant ynghylch rheoli digwyddiadau, cymorth i fusnesau, neu ymgysylltu â'r gymuned.

**6. Cyllid ac adnoddau:** Gall y wybodaeth a gynigir gan y canllaw ynghylch gofynion o ran cyllid ac adnoddau helpu cynghorau ac awdurdodau i gynllunio a chyllidebu'n effeithiol ar gyfer datblygu'r farchnad trwy nodi ffynonellau cymorth posibl (er enghraifft, grantiau neu nawdd).

**Dyfyniadau/tystebau**

"Dros sawl degawd yn gweithio gyda Marchnadoedd Ffermwyr yn ogystal â phob math o farchnad arall, rwyf wedi sylwi, pan fydd cynhyrchion mewn marchnadoedd ffermwyr yn dod yn llwyddiannus, bydd manwerthwyr y stryd fawr yn dueddol o'u prynu i'w cynnig eu hunain er budd pawb." (Peter Segger, Blaencamel)

"Mae gan y rhan fwyaf o farchnadoedd y byddaf yn mynd iddynt eu micro-gymunedau eu hunain ac mae hynny'n amlwg yn y ffordd y mae pobl yn aros i gymdeithasu ymhell ar ôl iddynt brynu eu neges. Gall hefyd fod o fudd i fusnesau eraill sydd ar agor o amgylch ardal y farchnad." (William, Black Mountain Itals)

"Yn achos ein marchnad ni, mae pobl yn gwybod y gallant ganfod cynhyrchwyr lleol sy'n cynnig y safonau uchaf un a dim arall. Mae ein marchnad ffermwyr yn meithrin cymuned hyfryd iawn a bydd pobl yn gwneud sylw am hynny." (Liz a Chris Kameen, Vale Grocer)

"Yn fy marn i, pan fydd cynhyrchwyr pob math o fwyd yn dechrau gwerthu yn eu cymuned leol, byddant yn elwa o'r math o adborth cadarnhaol yr ydym ni'n ei gael, a chan fod mwy o gysylltiad, dirnadaeth a pharch gan y gymuned, byddant yn gofalu mwy am eu sylfaen adnoddau naturiol a'u systemau cynhyrchu ac yn ymfalchïo'n fwy ynddynt." (Lyndall Merry, Bryn Celyn Gardens)




Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales